

Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

Welsh Language Advisory Panel

12 Medi 2019 am 13:30
Canolfan Yr Atom, Caerfyrddin

COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

Cyng. Edward Thomas	ETH	Annibynnol (Is-gadeirydd)
Cyng. Fozia Aktar	FA	Llafur
Cyng. Dorian Williams	DW	Plaid Cymru
Cyng. Tina Higgins	TH	Annibynnol
Cyng. Joseph Davies	JD	Annibynnol
Cyng. Carys Jones	CJ	Plaid Cymru

Swyddogion

Kelly Morris	KM	Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu
Llinos Evans	LIE	Swyddog Polisi a Phartneriaeth
Myfanwy Jones	MJ	Swyddog Polisi'r Iaith Gymraeg
Sally Bennett	SB	Cydlynnydd Dysgu Gwaith

Rhif eitem	Testun a phwyntiau gweithredu:	Yn gyfrifol:
1.	Croeso ac Ymddiheuriadau Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cyngorydd. Edward Thomas Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng. Peter Hughes-Griffiths, Cyng. Alun Lenny, Cyng. Sue Allen, Cyng. Rob James, Wendy Walters, Gwyneth Ayers.	
2.	Cofnodion y Cyfarfod diwethaf Cytunwyd bod y cofnod yn un cywir. Nodwyd bod y Comisiynydd Iaith wedi canfod bod y llywodraeth yn methu a chydymffurfio ym mater <i>Transport for Wales</i> a'u bod yn gorfod newid eu systemau.	

	Nodwyd bod yr Uned Bolisi wedi gwneud cais i gael rhywun i weithio ar y Fframwaith rheoleiddio drwy'r Cynllun hyfforddiant Academi. Bydd diweddariad yn y cyfarfod nesaf	LLE a MJ
3.	<p>Adroddiad Blynyddol y Gymraeg</p> <p>Nododd DW fod y cynnydd o 1% a nodir ar dudalen 21 yn fach. Awgrymodd fod angen cynnydd ar lefelau 4 a 5 er mwyn cynyddu defnydd o Gymraeg yn y gweithle a bod angen targedau uchelgeisiol.</p> <p>Gofynnwyd pryd fyddwn ni'n gweld effaith y cynnydd yn y continwmm addysg ar siaradwyr Cymraeg yn y gweithle ac awgrymwyd nad ydy'r neges yn gyffredinol yn cael ei gyfathrebu'n ddigon cryf, bod angen sgiliau Cymraeg ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus. Awgrymwyd bod angen addysgu rhieni am hyn ac y byddai modd bwydo'r gwaith hwn i mewn i'r Strategaeth Hybu ac i'r Fforwm Sirol.</p> <p>Eglurodd LLE bod yr Adroddiad yn adlewyrchu gwaith y flwyddyn o ran y Safonau, a bod astudiaethau achos o'r Strategaeth Hybu wedi eu cynnwys eleni. Eglurodd y byddai'n croesawu unrhyw adborth am y fformat neu'r cynnwys yn enwedig wrth ddechrau'r gwaith ar yr adroddiad nesaf yn mis Ionawr.</p>	LLE a MJ
4.	<p>Cymraeg yn y Gweithle</p> <p>Cyflwynodd Kelly Morris Gynllun Gweithredu 2019-20 a oedd yn cynnwys, 1.Cefnogi staff i uwchsgilio. 2.Ymgorffori'r iaith mewn i brosesau presennol, 3.annog defnydd y Gymraeg ymysg y staff, 4.hyrwyddo cyfleoedd i staff y Cyngor Sir i gyd.</p> <p>1. Manylodd ar y siart llif dulliau dysgu i gyd-fynd gyda'r lefelau sgiliau ac amrywiaeth y ddarpariaeth, sef cyrsiau ar-lein, cyrsiau cymunedol, cyrsiau dwys a chysiau preswyl. Eglurodd am ddarpariaeth Cymraeg Gwaith sydd wedi darparu 4 cwrs i weithlu Cyngor sir.</p> <p>Eglurodd bod 74% o gynnydd ers 2015 yn nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg.</p> <p>2.Eglurodd y gwaith a wnaed gyda'r Adran Adnoddau Dynol, sef sefydlu system o gytundebu dysgu ar gyfer staff newydd sy'n cael eu penodi heb fod ar y lefel Cymraeg angenrheidiol ar gyfer y swydd. Eglurodd fod y Ganolfan Dysgu Cenedlaethol wedi lansio'r teclyn gwirio o'r diwedd i asesu sgiliau ac y bydd yn cael ei fwydo i mewn i'r broses recriwtio. Mae'r teclyn ar-lein hefyd yn cynnig modd arall o asesu sgiliau dysgwyr yn hytrach nag arholiad ar ddiwedd cwrs. Nododd hefyd y byddwn yn dathlu cyflawniad yn yr Wythnos Dysgu Cymraeg.</p> <p>3.Eglurodd y gwnaed gwaith gyda Mentoriaid i annog a chynorthwyo dysgwyr, fod yna bocedi o glybiau sgwrs ayb yn digwydd o amgylch y Cyngor a bod pecyn i gynorthwyo Mentoriaid wedi ei greu.</p> <p>4. Gwnaed gwaith hyrwyddo drwy e-bost ac ar y fewnrwyd a thrwy gydgyssylltwyr Dysgu a datblygu.</p>	

	<p>Gofynnwyd a oes monitro'n digwydd o ddefnydd o'r Gymraeg mewn swyddfeydd? Oes modd dylanwadu er ei fod yn anodd.</p> <p>Nododd DW fod mwy a mwy o bobl ifanc yn dod o'r system addysg Gymraeg ac angen yn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Holodd a ydyn ni'n cadw trac o faint o bobl ifanc sy'n cael prentisiaethau neu profiad gwaith yn Gymraeg i annog bobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.</p> <p>Gofynnodd FA a oes gweithdai neu sesiynau magu hyder i staff- rhai cyson, nid dim ond unwaith mewn blwyddyn. Awgrymodd y byddai modd i Arweinwyr iaith symbylu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y swyddfa, bob bore Llun er enghraifft.</p> <p>Eglurodd KM fod trefn newydd o 'Bite-size sessions' ar bynciau penodol yn mynd i ddigwydd, trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn normaleiddio defnydd yr iaith a magu hyder staff.</p>	
<p>5.</p>	<p>Cynlluniau cyflogaeth y gweithle</p> <p>Cyflwynodd Sally Bennet wybodaeth ar systemau 1.Profiad gwaith, 2.prentisiaethau a 3.rhaglen Graddedigion y Cyngor.</p> <p>1.Eglurodd fod ffurflenni cais profiad gwaith wedi newid; ychwanegwyd blwch i nodi cais am gyfweliad Cymraeg. Nododd mai 14 ymgeisydd ofynnodd am gyfweliad yn Gymraeg. O'r rheini roedd 3 yn geisiadau aflwyddiannus a 4 wedi tynnu eu ceisiadau yn ôl.</p> <p>Nodwyd fod brawddeg hefyd wedi ei ychwanegu at y ffurflen i dynnu sylw at ddwyieithrwydd y sefydliad.</p> <p>Er y gallwn olrhain faint o bobl ifanc sy'n gofyn am gyfweliad Cymraeg ar gyfer safle profiad gwaith, ni allwn olrhain faint o bobl ifanc sy'n derbyn elfen o'u profiad gwaith yn Gymraeg.</p> <p>Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei adolygu. Bydd brawddeg yn cael ei ychwanegi i'r ffurflen i ofyn a ydy bobl eisiau elfen yn Gymraeg a byddwn yn edrych i weld oes modd dilyn y data i weld a ydy hyn yn cael ei gyflawni ac i weld faint o bobl ifanc sy'n cymryd mantais o'r cynnig. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i weld beth yw ymwybyddiaeth bobl ifanc o'r Gymraeg fel sgil defnyddiol yn y byd gwaith.</p> <p>Mae staff ar gael i gefnogi bobl os ydyn nhw'n gwybod bod angen iddyn nhw gael elfen Gymraeg yn eu profiad gwaith.</p> <p>Allan o 163 o geisiadau am brofiad gwaith, roedd 83 wedi eu cyflenwi. Ceir targed o 100 lleoliad profiad gwaith mewn blwyddyn.</p> <p>Holwyd pa ysgolion sy'n gofyn am brofiad gwaith a faint ohonyn nhw sy'n cymryd mantais o'r ddarpariaeth Gymraeg er mwyn sicrhau dilyniant Cymraeg o'r ysgol i'r gweithle. Eglurwyd nad yr ysgolion ond yn hytrach yn disgyblion sy'n cysylltu gyda'r Cyngor. Cytunwyd bod angen casglu data ynglŷn a phrofiad gwaith.</p>	<p>SB</p>

	<p>Nodwyd bod angen codi disgwyliaidau'r plant o ran y gweithle a sicrhau nad ydyn nhw'n gadael yr ysgol a gadael y Gymraeg.</p> <p>2. Nododd bod 1 prentis eleni wedi gofyn i gael cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg. Dim ond hanner y gwaith oedd modd ei gyflwyno yn Gymraeg er fod yna fwy a mwy o ddarpariaeth ar gael y dyddiau hyn. Mae sefydliadau yn ailhyfforddi eu hunain i fedru darparu'r ochr achredig yn Gymraeg. Nodwyd bod 1 prentis wedi gwneud gradd yn Gymraeg ond wedi dewis cael eu achredu yn Saesneg. Cytunwyd i edrych i mewn i hyn.</p> <p>Eglurwyd bod prentisiaid yn cael holl gyfleoedd dysgu Cymraeg y mae gweddill y staff yn cael.</p> <p>Trafodwyd a oes digon o ddarparwyr yn gallu achredu yn Gymraeg. Gofynnwyd a oedd modd canfod pa ddarparwyr sy'n gallu darparu'n Gymraeg. Tybiwyd y gallai'r consortia ddarparu'r wybodaeth? Nodwyd bod gan Aled Roberts, y Comisiynydd, ddiddordeb yn y maes ac y bydd yn gwneud darn o waith thematig ar hyn.</p> <p>3. Nodwyd bod fideos recriwtio wedi eu gwneud gyda rhai siaradwyr Cymraeg. Mae'r broses recriwtio'n newid i fod mewn canolfan asesu. Allan o 150 cais dim ond 1 ofynnodd am gyfweliad Cymraeg. Mae pob lle graddedig yn cael eu hysbysebu ar lefel 2 nawr.</p> <p>Holwyd oes modd gwybod faint o'r graddedigion sy'n dod o sir Gar? Cafwyd trafodaeth am ba negeseuon ydyn ni'n cyfleu fel cyflogwr dwyieithog. Holwyd oes modd cael sgwrs gyda'r bobl ifanc o'u argraff nhw ohonom ni fel cyflogwr i weld pam na ddewison nhw gyfweliad yn Gymraeg.</p>	<p>Polisi a SB</p> <p>SB</p>
<p>6.</p>	<p>Unrhyw fater arall</p> <p>Holwyd a ydyn ni'n recordio faint o drigolion a staff sy'n defnyddio gwefan a mewnrwyd yn Gymraeg. Eglurwyd fod yna lawer o ddata gallwn ni fod yn casglu a bod hyn ar yr agenda ar hyn o bryd ar gyfer mesur effaith y Strategaeth Hybu</p> <p>Cafwyd trafodaeth am gyfrwng iaith Technoleg Mod.Gov, nad oedd modd gweld manylion am gyfarfodydd yn Gymraeg. Cytunwyd i edrych i mewn i hyn.</p>	
<p>7.</p>	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf</p> <p>5.12.19 am 13:30</p>	